**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

27 Mehefin 2023

Annwyl Lywydd,

**Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)**

Cyflwynwyd y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) ("y Bil") i Dŷ'r Cyffredin a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ddydd Llun 19 Mehefin 2023. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i atal cyrff cyhoeddus rhag cael eu dylanwadu gan anghymeradwyaeth wleidyddol neu foesol gwladwriaethau tramor wrth wneud penderfyniadau economaidd penodol, yn amodol ar rai eithriadau; ac at ddibenion cysylltiedig.

Yn ystod y trafodion arferol, byddai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) yn cael ei osod gerbron y Senedd o fewn y dyddiad cau arferol o bythefnos ar ôl ei gyflwyno. Fodd bynnag, o ystyried ehangder y Bil hwn, ac i sicrhau bod gan bwyllgorau LCM cynhwysfawr i'w ystyried, ni fyddwn yn gallu ei lunio o fewn yr amserlen hon. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod LCM yn cael ei osod cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.